
Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Meilyr Rowlands
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	029 2044 6446
<hr/>	
Dyddiad / Date:	10.05.21
Pwnc / Subject:	Ymgynghoriad ar god ymarfer safonau drafft ar gyfer cyrff sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Cyflwyniad

Yn gyffredinol, teimlwn fod y cod ymarfer yn darparu canllawiau clir a defnyddiol ar gyfer cyrff sy'n ddarostyngedig i Reoliadau'r Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016. Mae ieithwedd y cod yn ddealladwy a hygyrch a chynigir enghreifftiau perthnasol fydd yn hwyluso gwaith cydymffurfio mewnol. Rydym yn cynnwys awgrymiadau a fyddai mewn ychydig o achosion yn ychwanegu at effeithiolrwydd y cod yn ein tyb ni.

1. Ar ôl i chi ddarllen y cod, oes unrhyw faterion sy'n aneglur? Os oes, beth ydyn nhw?

Nid oes unrhyw faterion yn aneglur yn y cod. Mae'r cod yn gosod gofynion statudol yn glir yn ogystal â chynnig enghreifftiau ymarferol a defnyddiol.

2. Ydy'r cod yn eich helpu chi i ddehongli'r safonau (a'r termau, ymadroddion a dehongliadau sydd yn y rheoliadau)? Os nac ydy, pa wybodaeth bellach fyddai o ddefnydd?

Credwn fod y cod yn darparu canllawiau a gwybodaeth ddefnyddiol fydd yn cynorthwyo sefydliadau (sydd wedi derbyn hysbysiad cydymffurfio yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016) i ddehongli'r safonau a'u goblygiadau ymarferol.

Mae'r cod yn cyfeirio'n helaeth at gyfarfodydd a'r angen i ddarparu cyfieithu ar y pryd ac ati. Byddai'n fuddiol i gynnwys cyfeiriadau diamwys yn y manau priodol bod hyn yn cynnwys cyfarfodydd rhithiol. Byddai hyn yn gyson â chynnwys y llythyr anfonwyd at benaethiaid sefydliadau ar 1/12/20 (Dyletswyddau i alluogi defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd: cyngor dan adran 4(2)(j) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011).

3. Oes unrhyw elfennau o'r cod yn gwrth-ddweud unrhyw ran arall o'r cod neu unrhyw ddeddfiad arall sy'n berthnasol i'ch gwaith?

Nac oes.

4. Ydy'r enghreifftiau sy'n cael eu cynnwys yn y cod yn eich cynorthwyo i ddeall y gofynion neu eu rhoi yn eu cyd-destun yn well? Oes unrhyw enghreifftiau eraill y gellid eu cynnwys?

Mae'r enghreifftiau yn cynnig canllawiau ac atebion defnyddiol i gwestiynau cyffredin a godir yn aml yn ystod cyfarfodydd mewnol am gydymffurfedd. Er enghraifft, ceir diffiniadau defnyddiol parthed ystyr 'arddangos' (4.7.3) a chanllawiau ymarferol ynglŷn ag arfer orau o ran defnyddio is-deitlau (4.6.7).

Bydd y cod hwn yn ein cefnogi i godi ymwybyddiaeth a lledaenu gwybodaeth ymhlith ein staff, yn enwedig o safbwynt goblygiadau'r gyfraith. Enghraifft dda o hyn yw adran 8.3 Corff yn cyhoeddi gweithdrefn gwyno (safonau 153, 159 a 162). Mae'r adran yn gosod y disgwyliadau o ran cynnwys unrhyw bolisi cwyno yn ogystal â'r math o hyfforddiant sydd ei angen yn fewnol er mwyn sicrhau bod staff perthnasol yn medru delio ac ymchwilio i gwynion sy'n ymwneud â diffyg cydymffurfedd.

Bydd yr enghreifftiau hefyd yn cynnig cymorth ymarferol a defnyddiol i ni wrth lunio Strategaeth yr Iaith Gymraeg i gyd-fynd â'n Polisi Iaith Gymraeg.

5. Ydy cynnwys unrhyw restrau yn y cod yn eich cynorthwyo i ddeall y gofynion? Oes angen ehangu ar gynnwys unrhyw restrau?

Credwn fod y rhestrau'n cynnwys eitemau priodol a defnyddiol, er enghraifft, y rhestr o gwestiynau ar gyfer asesu'r angen i gynhyrchu dogfennau sydd ar gael i'r cyhoedd (4.8.23) a'r tabl (5.1.9) sy'n rhoi enghreifftiau o gwestiynau perthnasol y gellid eu hystyried wrth ymchwilio i ba effeithiau positif ac andwyol y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar y Gymraeg. Mae'r ail enghraifft yn arbennig o ddefnyddiol gan fod cael sefydliadau i ddeall effaith ieithyddol eu prosesau llunio polisi yn gallu bod yn heriol.

Yn yr un modd croesawn y templedi gwirio ar gyfer materion megis llunio polisiâu, ymgynghori, comisiynu ymchwil a chynhyrchu adroddiad blynyddol ar gydymffurfedd â'r Safonau sy'n cael eu cynnwys ar ddiwedd y cod. Credwn y bydd y rhain yn cynorthwyo sefydliadau i wirio cydymffurfedd mewn modd hwylus ac ymarferol.

Efallai y gellid ehangu ar y rhestr uchod a chynnwys enghreifftiau o'r cynnwys angenrheidiol ar gyfer polisiâu mewnol allweddol neu gynhyrchu dogfen ar wahân at y diben hwnnw. Er enghraifft, byddai arweiniad ychwanegol, yn ogystal ag enghreifftiau o arfer dda o bosib, i'r hyn a gynhwysir yn adrannau 8.3 parthed polisiâu cwyno corfforaethol yn ddefnyddiol.

Mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys enghreifftiau o logo a delweddau iaith Gwaith at ddibenion gwahanol. Byddai'n ddefnyddiol pe bai modd cynnwys dolenni i gyrrff lawrlwytho'r delweddau hyn mewn fformatau y

byddai modd eu ddefnyddio'n rhwydd ar ddogfennau, cefnlenni fideo-gynadledda ac ati.

6. Ydy'r cod wedi'i strwythuro a'i osod mewn modd dealladwy? Os nac ydy, oes gennych chi awgrymiadau ar sut i'w wella?

Mae strwythur a threfn y llyfryn a chynnwys y cod yn rhesymegol a chlir, gan gynnwys statws cyfreithiol y cod ei hun (1.13-1.18). Bydd yr adnodd hwn yn hynod ddefnyddiol i'r sawl sy'n gyfrifol am weithredu a monitro cydymffurfedd yn eu sefydliadau eu hunain. Yn ogystal, ac efallai yr un mor bwysig, y mae'r cod yn ddealladwy a hygyrch o ran cywair iaith ac esboniadau ymarferol i weithwyr eraill yn y sefydliadau hynny. Bwriadwn gylchredeg y ddogfennaeth derfynol i'r sawl sy'n gyfrifol am y Gymraeg o fewn adrannau unigol gan ei fod yn ganllaw ymarferol, hawdd i'w ddeall fydd yn hwyluso cydymffurfedd yn ogystal ag annog adrannau unigol i wella eu dealltwriaeth a'u perchnogaeth o'r broses honno.

7. Ydy'r iaith sy'n cael ei defnyddio yn eglur? Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar sut i'w gwella?

Credwn fod goslef a chywair y cod yn glir a dealladwy. O ganlyniad dylai'r ddogfen fod yn hygyrch i gynulleidfaoedd gwahanol, yn ogystal â'r cyrff mae'r cod yn berthnasol iddynt.

8. Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar gynnwys y cod hwn?

Croesawn fod cryn bwyslais ar hyfforddiant a meithrin sgiliau Cymraeg (6.8 safonau 123-131). Croesawn hefyd y ffordd mae'r cod yn esbonio ac amlygu'r broses o wirio lefelau iaith unigolion yn erbyn lefelau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (sector Cymraeg i Oedolion), CEFR ac ALTE. Mae cyfeiriadau at y cynllun Cymraeg Gwaith yn fuddiol gan roi arweiniad clir i sefydliadau o ran y math o hyfforddiant addas sydd ar gael. Hoffem awgrymu y gallech wneud newidiadau bychain i eiriad 6.8.31 sy'n ateb y cwestiwn, '*Beth yw ystyr y term 'gwersi sylfaenol'?*' Dyma eiriad 6.8.31 ar hyn o bryd:

*'Mae'r term yn golygu gwersi ar gyfer dysgu sgiliau sylfaenol yn Gymraeg, fel **sgiliau gwrando, deall, darllen, siarad ac ysgrifennu**. Bwriad y gwersi hyn fyddai galluogi cyflogai i gyflawni swyddogaethau sylfaenol trwy gyfrwng y Gymraeg.'*

Teimlwn fod modd newid y pwyslais o ran trefn y medrau ieithyddol. Dylid sicrhau bod sefydliadau'n adlewyrchu'r pwyslais datblygol yn y

byd addysg ar gynhyrchu siaradwyr gweithredol yr iaith Gymraeg er mwyn cyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr erbyn 2050. Dylai rhaglenni hyfforddiant, yn ein barn ni, ganolbwyntio'n bennaf fel arfer, ar y medrau gweithredol megis llafaredd yn hytrach na medrau mwy goddefol megis darllen a hyd yn oed ysgrifennu i raddau. O ganlyniad, efallai byddai'n fuddiol i ddisodli'r print bras uchod gyda geiriad tebyg i **'fel sgiliau llafaredd (sef gwrando/deall a siarad), darllen ac ysgrifennu'**. Byddai hynny yn rhoi arweiniad mwy clir i sefydliadau wrth iddynt drefnu rhaglenni hyfforddiant ac yn osgoi gormod o bwyslais ar hyfforddiant sydd yn haws o bosib ei drefnu ond yn llai effeithiol o ran sicrhau defnydd gweithredol ac ystyrlon o'r Gymraeg o fewn eu sefydliadau.